Cylchlythyr - 14/02/25

Annwyl Deuluoedd ein hysgol,

Mae’r wythnosau wedi hedfan ac rydyn ni bron wedi cyrraedd hanner tymor!  Braf iawn i weld y Gwanwyn yn dechrau codi ei ben unwaith eto. O ffair lyfrau i ddiogelwch ar y we mae wedi bod yn wythnos llawn dysgu a mwynhau!

Cystadleuaeth Dydd Miwsig Cymru – Canlyniadau

Llongyfarchiadau mawr i enillwyr ein cystadleuaeth Dydd Miwsig Cymru! Roedd gan Gwen, Eddie, a'r aelodau eraill o’n Criw Cymraeg dasg anodd yn beirniadu’r holl geisiadau gwych.

Cymeradwyaeth arbennig i:

🏆 Erin, enillydd y wobr gyntaf am ei dyluniad crys-T gwych!

🏆 Aneira, a enillodd y wobr gyntaf am ei pherfformiad dawns anhygoel!

Derbyniodd ein henillwyr cyntaf daleb rhodd gwerth £10, tra bod yr enillwyr ail a thrydydd wedi ennill pwyntiau llys a phwyntiau Dojo gwerthfawr. Da iawn i bawb a gymerodd ran – rydym mor falch o’ch creadigrwydd ac eich brwdfrydedd!

Coginio ar Gyllideb – Cwrs Am Ddim

Rydym yn gyffrous i lansio ein cwrs Coginio ar Gyllideb, yn dechrau Ddydd Mawrth, 18eg o Chwefror 2025, mewn partneriaeth â Menter Caerdydd.

🍲 Mae’r holl gynhwysion yn cael eu darparu!

🎁 Derbyn popty araf am ddim ar ddiwedd y cwrs!

Mae hwn yn gyfle gwych i ddysgu sut i goginio prydau blasus ac am bris fforddiadwy i’ch teulu. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â jade@mentercaerdydd.cymru am fwy o wybodaeth. Byddai’n braf eich gweld chi yno!

Dyddiadau Pwysig ar gyfer Eich Calendr:

🗓 Chwefror 17 – Blwyddyn 3 i ymweld a Chanolfan Preswyl Bae Caerdydd
🗓 Chwefror 21 – Diwrnod dim gwisg ysgol.
🗓 Chwefror 24 – Chwefror 28: Gwyliau Hanner Tymor
🗓 Mawrth 3: Pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol
🗓 Mawrth 5: Dydd Gŵyl Dewi yn Ysgol Glan Ceubal.  Eisteddod ysgol.  Plis gwisgwch lliwiau eich llys i’r ysgol.

Conwy – Gwyrdd
Taf – Glas
Teifi – Melyn

Os nad ydych yn siwr ym mha lys mae eich plentyn, cysylltwch ag athro eich dosbarth.

🗓 Mawrth 7: Twmpath wedi trefnu gan y Cyfeillion (mwy o fanylion i ddod)
🗓 Dydd Sadwrn, Mawrth 8: Eisteddfod y Clwstwr yn Ysgol Gyfun Glan Taf.
🗓 Mawrth 10: Diwrnod Dathlu Gwyddoniaethyn Ysgol Glan Ceubal

🗓️ Mawrth 10 – 21 Mawrth : Pythefnos o Nosweithiau Rhieni - Cyfle i drafod cynnydd a datblygiad eich plentyn.  Mwy o wybodaeth wedi rhannu gan athro eich dosbarth.
🗓️ Mawrth 14: Diwrnod y Llyfr Ysgol Glan Ceubal (mwy o fanylion i ddod)
🗓️ Mawrth 21: Diwrnod Trwyn Coch yn Ysgol Glan Ceubal (trefnwyd gan y Clwb Lles – mwy o fanylion i ddod)
🗓️ Mawrth 28: Diwrnod HMS yn Ysgol Glan Ceubal – ysgol ar gau i ddisgyblion
🗓️ Dydd Sadwrn Ebrill 5 : Eisteddfod Sir
🗓️ Ebrill 11: Diwedd y Tymor

Presenoldeb

Rwyf wrth fy modd i gyhoeddi bod ein presenoldeb wythnosol yn parhau i fod yn 94%! Mae'r ymdrech gyson hon gan bawb yn haeddu dathliad a chydnabyddiaeth barhaus.

Cofiwch gadw mewn cysylltiad â ni ar ClassDojo neu Instagram @ysgolglanceubal.

Cofion cynnes,

Siân Eleri Fudge

Newsletter 14/02/25

Dear School Families,

As the half-term break nears, it's amazing to see how quickly the weeks have passed and the early signs of Spring beginning to show. This week has been a vibrant mix of learning, from the book fair to internet safety, and it's been wonderful to witness.

Welsh Music Day Competition – Results

A huge congratulations to our Welsh Music Day competition winners! Gwen, Eddie, and other members of our Criw Cymraeg had a tough job judging all the fantastic entries.

A special well done to:

🏆 Erin, who won first place for her fantastic T-shirt design!

🏆 Aneira, who took first place with her amazing dance performance!

Our first-place winners received a £10 gift voucher, while second and third-place winners earned valuable house points and Dojo points. Well done to everyone who took part – we are so proud of your creativity and enthusiasm!

Cooking on a Budget – Free Course

We're excited to launch our Cooking on a Budget course, starting on Tuesday, 18th February 2025, in partnership with Menter Caerdydd.

🍲 All ingredients are provided!

🎁 Receive a free slow cooker at the end of the course!

This is a fantastic opportunity to learn how to cook affordable, delicious meals for your family. If you're interested, please contact jade@mentercaerdydd.cymru for more information. We'd love to see you there!

Important Dates for Your Calendar:

📅 February 17 – Year 3 visit to The Urdd Residential Centre (Cardiff Bay)
📅 February 21 – Non uniform day

📅 February 24 – 28 – Half term Holiday

📅 March 3: All pupils to return to school

📅 March 5: St David's Day at Ysgol Glan Ceubal. School Eisteddfod. Remember to come to school in your house colours.

Conwy – Gwyrdd (green)
Taf – Glas (blue)
Teifi – Melyn (yellow)

If you are unsure which house your child belongs to please contact your class teacher.

📅 March 7: Twmpath organised by the PTA (more details to follow)

📅 SATURDAY, March 8: Cluster Eisteddfod at Ysgol Gyfun Glan Taf.

📅 March 10: Celebrating Science Day at Ysgol Glan Ceubal.

📅 March 10 – March 21: Parent Consultations - A week dedicated to discussions about your child's progress and development.(More details to be shared by your class teacher)

📅 March 14: World Book Day at Ysgol Glan Ceubal.(more details to follow)

📅 March 21: Red Nose Day at Ysgol Glan Ceubal (organised by the Well-being Club – more details to follow)

📅 March 28: INSET Day (School closed to all pupils)

📅 SATURDAY April 5 : County Eisteddfod

📅 April 11: Last day of term

Attendance

We are also proud to share that our weekly attendance rate has consistently been an impressive 94%! This is a testament to the dedication and commitment of our students and families.

Stay connected with us! Join ClassDojo and and Instagram (@ysgolglanceubal) for the latest insights into our school life.

With warm regards,

Siân Eleri Fudge